



PARATOI EICH CARTREF AT Y GAEAF...

Cadwch yn gynnes, byddwch yn ddiogel, paratowch!

Fel arfer, bob gaeaf, bydd fîm Gwasanaethau Eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymdrin â thua 1,000 o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â'r tywydd oer, a gellir osgoi'r mwyafrif o'r rhain drwy wneud rhai paratodau syml i ddiogelu cartrefi ac adeiladau.

PARATOWCH Y MANNAU ALLANOL

- Edrychwch i weld a oes llechi sy'n rhydd neu'n eisiau ar eich to, a gwnewch yn sicr bod yr erialau teledu'n gadarn yn eu lle
- Edrychwch i weld a yw'r goleuadau diogelwch allanol yn gweithio'n iawn
- Cliriwch y llwybrau a gwnewch yn sicr fod canllawiau'n gadarn yn eu lle

CADWCH YN GYNNES

- Gofalwch fod gennych ddeunydd inswleiddio digonol wedi'i osod – lagiwch y pibelli a'r tanc dŵr poeth os oes modd
- Edrychwch i weld a oes drafft wrth y drysau a'r ffenestri – trefnwch i waith atgyweirio gael ei wneud os oes angen, neu defnyddiwch gyfarpar atal drafft
- Gwiriwch y rheiddiaduron a gollwng yr aer ohonynt i'w ryddhau o'r system gwres canolog.

BYDDWCH YN DDIOGEL

- Gwnewch yn sicr fod eich boeleri a'ch offer sy'n defnyddio nwy/tanwydd solet arall yn cael gwasanaeth
- Gwnewch yn sicr fod y larymau mwg a'r larymau carbon monocsid yn gweithio'n iawn

PARATOWCH

- Dangoswch i bob un abl sut mae diffodd y cyflenwadau dŵr, trydan a nwy pe bai angen gwneud hynny
- Cadwch restr o rifau ffôn defnyddiol wrth law rhag ofn y digwydd argyfwng – gan gynnwys rhif eich plymwr, eich gosodwr nwy a'ch trydanwr.

SUT MAE ATAL PIBELLI RHAG RHEWI A SUT MAE YMDRIN Â PHIBELLI SYDD WEDI RHEWI

- I atal y pibelli rhag rhewi pan na fydd neb gartref, gadewch y drysau mewnol, a hyd yn oed ddrws cwpwrdd y sinc, ar agor a chadw'r gwres canolog ymlaen yn isel
- Caewch bob tap allanol a draenio'r holl ddŵr llonydd er mwyn atal y pibelli rhag hollti
- Defnyddiwch halen bras a dŵr twym i glirio'r draeniau sydd wedi rhewi

Os ydych yn denant i'r Cyngor ac os ydych am roi gwybod am waith atgyweirio y mae arnoch ei angen i'ch cartref, ffoniwch Galw Sir Gâr: 01267 234567. Os oes angen help arnoch mewn argyfwng, y tu allan i oriau arferol swyddfa, ffoniwch 01558 824283.